

**SWYDDFA EIDDO DEALLUSOL Y DG
CYNLLUN IAITH GYMRAEG**

PARATOWYD O DAN DDEDDF YR IAITH GYMRAEG 1993

**PARATOWYD Y CYNLLUN HWN YN UNOL AG ADRAN 21(3) O DDEDDF YR
IAITH GYMRAEG GAN DDILYN CANLLAWIAU BWRDD YR IAITH GYMRAEG.**

Daeth yn weithredol ar 3 Hydref 2007

CYFLWYNIAD

1. Mae Swyddfa Eiddo Deallusol y DG wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus, yn trin yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r Cynllun hwn yn gosod sut y byddwn yn gweithredu'r egwyddor honno wrth roi'n gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.
2. Yn y cynllun hwn, mae'r term **cyhoeddus** yn golygu unigolion a phersonau cyfreithiol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn ei grynsyth, neu ran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cwmpasu cyrff gwirfoddol ac elusennau. Mae cyfarwyddwyr ac eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig hefyd yn dod o dan ystyr y term **cyhoeddus**. Ond nid yw'n cynnwys pobl sy'n cynrychioli'r Goron, y Llywodraeth neu'r Wladwriaeth. O ganlyniad, nid yw pobl sy'n cyflawni swyddogaethau swyddogol sydd o natur gyhoeddus, er eu bod yn bersonau cyfreithiol, yn dod o dan ystyr y gair **cyhoeddus** wrth ddilyn y swyddogaethau swyddogol hynny.

Disgrifiad o Swyddfa Eiddo Deallusol y DG

3. Mae Swyddfa Eiddo Deallusol y DG yn Asiantaeth Weithredol o dan yr Adran Masnach a Diwydiant (DTI) gyda statws Cronfa Fasnachu. Mae'n pencadlys yng Nghasnewydd ac mae gennym swyddfa fach yn Llundain lle gellir hefyd fanteisio ar ein gwasanaethau. Mae'r Swyddfa'n cynnwys saith Cyfarwyddiaeth sy'n gyfrifol am: Batentau; Nodau Masnach a Dyluniadau; Polisi Eiddo Deallusol (ED); Cyllid; Technoleg Gwybodaeth; Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Gweinyddol Corfforaethol; a Gwasanaethau Cwsmeriaid a Chefnogi Blaengaredd. Cyflogwn tua 1,000 o staff, a'r mwyafrif wedi'u seilio yng Nghasnewydd lle cynhelir craidd ein gwaith.
4. Ein rôl yw helpu i reoli cyfundrefn ED sy'n annog blaengaredd a chreadigrwydd, yn cydbwysu anghenion prynwyr a defnyddwyr, yn hybu marchnadoedd cryf a chystadleuol, ac yn sylfaen i'r economi seiliedig ar wybodaeth.
5. Un o'n meysydd busnes yw caniatáu patentau a chofrestru dyluniadau a nodau masnach yn y DG a'u cynnal yn unol â chais y cwsmer. Caiff cwsmeriaid ffeilio ceisiadau am batentau, nodau masnach a dyluniadau yn swyddfeydd Casnewydd a Llundain fel ei gilydd. Bydd y Swyddfa hefyd yn gweithredu'n Swyddfa Dderbyn i Swyddfa Batentau Ewrop (EPO) [ceisiadau am batentau Ewropeaidd], Swyddfa Cysoni'r Farchnad Fewnol (OHIM) [ceisiadau am nodau masnach a dyluniadau'r Gymuned] a'r Sefydliad Eiddo Deallusol Bydeang (WIPO) [ceisiadau am batentau rhyngwladol].
6. Mae agweddau eraill ar ein busnes yn ymwneud â magu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ED, h.y. patentau, dyluniadau, nodau masnach, hawlfraint a hawliau cysylltiedig, gan roi gwybodaeth am ED i'r cyhoedd a chynnig gwasanaethau chwilio masnachol. Rydym hefyd yn gyfrifol am bolisi a

deddfwriaeth y DG mewn cysylltiad ag eiddo deallusol a byddwn yn cynnal trafodaethau cenedlaethol a rhyngwladol ar bob mater yn ymwneud ag ED.

7. Mae'n sylfaen gwsmeriaid yn eang iawn, gan rychwantu'r dyfeisydd preifat, cyrff ymchwil, prifysgolion, mentrau bach a chanolig, a chwmnïau rhyngwladol mawr dros y byd i gyd.
8. Gweithredwn mewn amgylchedd cenedlaethol a rhyngwladol ac mae'n gwaith wedi'i lywio gan y gyfraith genedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys amrywiol gytundebau rhyngwladol yn ymwneud ag ED y mae'r DG wedi ymrwymo iddynt. Wrth ystyried sut i roi gwasanaethau yn Gymraeg, mae'n rhaid inni gydymffurfio â'r gyfraith genedlaethol a rhyngwladol fel ei gilydd. Mae'r gyfraith ED rhyngwladol yn cydnabod nifer gymharol fach o ieithoedd swyddogol, gan gynnwys y Saesneg, ond ar hyn o bryd nid oes cydnabyddiaeth i lawer o ieithoedd sy'n cael eu siarad yn eang, a'r Gymraeg ymhlith y rheiny.
9. Lle bo modd, byddwn yn egluro ac yn cynnig y gyfundrefn ED trwy gyfrwng y Gymraeg i'r cwsmeriaid hynny sy'n dymuno cofrestru'u hawliau ED o fewn y Deyrnas Unedig yn Gymraeg. Ond er mwyn cofrestru hawliau ED rhyngwladol, oherwydd y cyfreithiau, y cytundebau a'r rhwymedigaethau sydd mewn grym, mae'n rhaid yn nodweddiadol i geisiadau gael eu cyflwyno mewn iaith swyddogol briodol, y Saesneg fel arfer. Mae systemau patentau Ewropeaidd a rhyngwladol yn eithriad i hyn i ryw raddau am fod bwriad i'w diwygio i ganiatáu ffeilio ceisiadau mewn unrhyw iaith, er y byddai angen o hyd i brosesiad pellach y ceisiadau hynny fod trwy gyfrwng iaith swyddogol fel y Saesneg.

CYNLLUNIO A GWIREDDU GWASANAETH

Polisïau a Mentrau

10. Byddwn yn asesu ymhllygiadau a chanlyniadau'n polisïau, ein mentrau a'n gwasanaethau i'r iaith Gymraeg ac yn sicrhau, mor bell ag y bo hynny'n briodol ac yn rhesymol ymarferol, eu bod yn gyson â'n Cynllun a heb ei danseilio. Byddwn hefyd yn asesu ymhllygiadau a chanlyniadau deddfwriaeth a gaiff ei chynnig neu ei datblygu gennym i'r iaith Gymraeg. Rhodir i bob aelod staff gyfarwyddyd ynghylch sut y gallai'r Cynllun effeithio ar y drefn llunio polisïau. Lle bo cyfle'n codi, manteisir ar bolisïau a mentrau newydd i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.
11. Bydd unrhyw ddiwygiadau i'r Cynllun y gallwn fod am eu gwneud yn cael eu cyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg er mwyn iddo eu hystyried.

Rhoi Gwasanaeth

12. Byddwn yn rhoi gwasanaeth o'r un ansawdd uchel yn Gymraeg a Saesneg. Bydd y gwasanaeth hwn yn adeiladu ar sail mesurau sydd eisoes mewn grym,

gan ddilyn proses o wella cyson. Byddwn yn gwneud popeth a allwn i roi anogaeth i gwsmeriaid sydd am gynnal busnes trwy gyfrwng y Gymraeg.

13. Mae'n Cynllun yn gosod sut a pha bryd y caiff ein gwasanaeth Cymraeg ei roi.
14. Byddwn yn rhoi gwybod i'n cwsmeriaid ein bod yn cynnig gwasanaeth i siaradwyr Cymraeg. Byddwn yn lansio'n Cynllun ar ein gwefannau allanol a mewnol, yn rhoi gwybod i'n grwpiau defnyddwyr ac yn rhoi cyhoeddusrwydd iddo yn ein deunydd hybu.

Safonau Gwasanaeth

15. Rydym wedi ymrwymo i roi gwasanaeth o ansawdd uchel, yn unol â diffiniad ein Safonau Gwasanaeth Cwsmeriaid, i bawb o'n cwsmeriaid ar yr un lefel yn Gymraeg ag yn Saesneg.
16. Byddwn yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i gydymffurfio â'r Cynllun a bydd canllawiau manwl ar gael yn ein llythyr newyddion i staff, "The Link", ac ar ein gwefan fewnol.
17. Byddwn yn monitro'r ffordd y cydymffurfiwn â'r Cynllun ac yn defnyddio'r canlyniadau i sicrhau cysondeb y gwasanaeth trwy'r Swyddfa gyfan a bod ein gwasanaeth Cymraeg yn esblygu mewn ymateb i ofynion y cwsmer.

DELIO Â'R CYHOEDD CYMRAEG

Gohebiaeth Gyffredinol

18. Rydym wedi ymrwymo i ddelio â gohebiaeth yn ymwneud ag ymholiadau cyffredinol o fewn 5 diwrnod a byddwn bob amser yn ateb llythyrau mor fuan â phosib. Ond gall oedi ddigwydd lle bydd angen inni ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu i ateb ymholiadau cymhleth. Y rheswm am hyn yw bod ED yn defnyddio iaith gyfreithiol a thechnegol arbenigol iawn nad oes bob amser dermau manwl-gywir yn cyfateb iddi yn Gymraeg. Gall cwsmeriaid sy'n ysgrifennu yn Gymraeg ddisgwyl ateb o fewn yr un amserlen â rhai sy'n ysgrifennu yn Saesneg. Os na allwn gwrdd â'r terfyn amser hwn, yna caiff ateb dros dro ei anfon yn Gymraeg yn egluro pam lai.
19. O dderbyn llythyr, neges ffacs neu e-bost yn Gymraeg, byddwn:
 - yn ateb yn Gymraeg
 - yn gohebu yn Gymraeg â chwsmeriaid sydd wedi gohebu â ni'n flaenorol yn Gymraeg
 - yn anfon ateb dros dro yn Gymraeg os yw'n debygol y bydd oedi cyn gallu ymateb i'r cais.

20. I wireddu'r ymrwymiad hwn, rydym wedi rhoi cyfarwyddyd i'n staff ar drin gohebiaeth yn Gymraeg, a chaiff "rhestr termau" ei llunio i gyfieithwyr ei dilyn er mwyn sicrhau cysondeb mewn cyfieithiadau. Byddwn hefyd yn monitro'r gwasanaeth a roddwn er mwyn sicrhau bod defnyddwyr Cymraeg yn cael yr un lefel o wasanaeth â defnyddwyr Saesneg.
21. Ni all Swyddfa Eiddo Deallusol y DG ar hyn o bryd ddarparu bob amser ohebiaeth wedi'i chreu'n awtomataidd trwy gyfrifiadur yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg am resymau technolegol ac ariannol. Byddwn yn mynd i'r afael â'r mater hwn yn y dyfodol os bydd modd, wrth ddiweddarau'n systemau. Fodd bynnag, byddwn yn adolygu'r ohebiaeth safonol neu gylchol a anfonwn â llaw at nifer o dderbynwyr yng Nghymru i gael gweld pa eitemau y dylid eu cynhyrchu'n ddwyieithog yn sgil cyngor Bwrdd yr Iaith.
22. Os bydd raid cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg o unrhyw ohebiaeth ar wahân, ein harfer safonol fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael yr un pryd.
23. Bydd eitemau a gaiff eu hamgáu gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog eu hunain lle bo eitemau felly ar gael.
24. Bydd eitemau a gaiff eu hamgáu gyda llythyrau Cymraeg yn Gymraeg eu hunain neu'n ddwyieithog lle bo eitemau felly ar gael.

Post Electronig

25. Wrth dderbyn gohebiaeth trwy'r e-bost yn Gymraeg, bydd yr un egwyddorion yn gymwys â chyda gohebiaeth ysgrifenedig.
26. Bydd pob gohebiaeth Gymraeg a anfonwn trwy'r e-bost yn dangos llofnod electronig Cymraeg (neu ddwyieithog).

Galwadau Teleffon

27. Croesawn alwyr teleffon sy'n dymuno cynnal eu busnes trwy gyfrwng y Gymraeg a bydd y gwasanaeth canlynol mewn grym:
 - wrth i gwsmer gysylltu â'r Swyddfa trwy'r switsfwrdd, caiff ei gyfarch yn ddwyieithog ac os bydd am gynnal ei sgwrs yn Gymraeg bydd y cysylltydd yn dargyfeirio'r alwad i aelod Cymraeg o'r staff a fydd yn gallu delio â'r ymholiad lle bo modd
 - bydd gan ein switsfwrdd neges ddwyieithog ar ei ffôn ateb
 - byddwn yn annog gweddill ein staff i ateb y ffôn â chyfarchiad dwyieithog a defnyddio negesau dwyieithog ar eu ffonau ateb personol

- lle bydd cwsmer yn deialu un o'r adrannau gweithredol yn uniongyrchol ac yn dymuno siarad Cymraeg, bydd y person sy'n ateb yr alwad, os nad yw'n siarad Cymraeg, yn ei drosglwyddo i'r aelod Cymraeg o'r staff sydd yn y sefyllfa orau i ddelio â'r ymholiad, neu'n trefnu i siaradwr Cymraeg ffonio'n ôl.
28. Yn y naill achos a'r llall, os nad oes aelod Cymraeg o'r staff ar gael ar y pryd a all ateb yr ymholiad, byddwn yn rhoi i'r cwsmer y dewis o barhau yn Saesneg neu gael ei alw'n ôl gan siaradwr Cymraeg cyn gynted ag y bydd un ar gael. Os na fydd hyn yn bosib, caiff ei wahodd i gyflwyno'i gais yn ysgrifenedig. I hwyluso hyn, mae rhestr o'r staff sy'n gallu siarad Cymraeg, ynghyd â manylion yr agweddau arbennig ar ED y maen nhw'n gymwys i ateb ymholiadau yn eu cylch, ar gael ar ein gwefan fewnol. Byddwn hefyd yn uniaethu staff addas ac yn rhoi hyfforddiant iddynt i'w galluogi i ddelio ag ymholiadau'n gwrtais a hyderus.
29. Os bydd ymholiad yn neilltuol o gymhleth, hwyrach na fydd modd ei drafod dros y ffôn gan y gall fod angen inni geisio cyfarwyddyd technegol neu gyfreithiol. Lle bydd hyn yn digwydd, byddwn yn delio â'r ymholiad yn ysgrifenedig ac yn ateb yn Gymraeg os dyna ddymuniad y cwsmer. Mae hyn yn gyson â'n harfer safonol gyda golwg ar bob ymholiad technegol neu gyfreithiol cymhleth.
30. Oherwydd eu lleoliad, ni fyddai'n ymarferol i staff yn ein swyddfeydd y tu allan i Gymru gynnal sgysiau ffôn yn Gymraeg.

Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth

31. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn mynnu'n bod yn ymateb i geisiadau o fewn 20 diwrnod i'w derbyn. Lle bo angen inni gyfieithu'r wybodaeth y mae'r ymgeisydd yn gofyn amdani, ni fydd y cyfnod hwn yn gymwys (oni bai bod y wybodaeth eisoes ar gael yn ddwyieithog yn unol â darpariaethau'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn). Ymatebir i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn unol â darpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Cyfarfodydd Cyhoeddus

32. Ni chynhaliwn gyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru, ond pe gwnelem hynny, byddem yn sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn cael cyfrannu yn Gymraeg.

Ymwelwyr â'r Swyddfa

33. Croesawir ymwelwyr i swyddfeydd Casnewydd a Llundain, ac os bydd cwsmer am gynnal busnes yn Gymraeg caiff wneud felly yn Swyddfa Casnewydd lle byddwn:
- yn trefnu i ymholiadau Cymraeg wrth y dderbynfa gael eu trin gan aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg

- yn trefnu i aelod Cymraeg o'r staff sydd â chymwysterau addas yn y maes/meysydd ED perthnasol fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfodydd neu drafodaethau a drefnwyd ymlaen llaw. Os nad oes aelod Cymraeg o'r staff sydd â chymwysterau addas ar gael, caiff y cwsmer y dewis o barhau yn Saesneg neu ddelio â'r mater yn ysgrifenedig yn Gymraeg.
- yn sicrhau bod arwyddion dwyieithog yn y tiroedd ac wrth y dderbynfa, yn rhoi gwybod bod gwasanaeth Cymraeg ar gael.
- yn sicrhau bod amrywiaeth o ddeunydd hysbysrwydd dwyieithog ar gael wrth y dderbynfa
- oherwydd eu lleoliad, ni fyddai'n briodol i staff yn ein swyddfeydd y tu allan i Gymru gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Gweithrediadau Cyfreithiol gyda Swyddfa Eiddo Deallusol y DG

34. Lle bo anghydfod heb ei ddatrys ynglŷn â chais arbennig am batent, nod masnach neu ddyluniad, mae gan yr ymgeisydd hawl i gyflwyno'i achos mewn gwrandawriad. Os cynhelir y gwrandawriad yng Nghymru, gall y gwrandawriad fod trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn ein Swyddfa yng Nghasnewydd lle trefnir hynny ymlaen llaw.
35. Ond os na roir rhybudd ymlaen llaw, yna, oherwydd cyfyngiadau niferoedd y staff sy'n siarad Cymraeg a diffyg cyfieithydd-ar-y-pryd yn y fan a'r lle, hwyrach na fydd siaradwr Cymraeg sydd â'r cymwysterau cyfreithiol a thechnegol ar gael yn syth. Wedyn, fe roir i'r ymgeisydd y dewis, yn ddiragfarn, o barhau'r gwrandawriad yn Saesneg neu ei ohirio nes bydd siaradwr Cymraeg ar gael. Fe wnawn ein gorau i asesu'r dewis o ran ieithoedd ymlaen llaw.

Arolygon

36. Wrth ymgymryd ag **arolygon cyhoeddus** yng Nghymru, byddwn lle bynnag y bo hynny'n ymarferol yn rhoi gwybod i ymatebwyr fod modd darparu'r arolwg trwy gyfrwng y Gymraeg os gwneir cais. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ymatebwyr ymateb i'r arolwg yn Gymraeg os dymunant.

Seminarau

37. Wrth drefnu **seminarau, cyrsiau hyfforddi** neu ddigwyddiadau tebyg i'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn asesu'r angen am eu darparu yn Gymraeg. Wrth gynnal yr asesiad hwn, byddwn yn ystyried dewis iaith y rhai fydd yn mynychu ac argaeledd hyfforddwyr Cymraeg

Digwyddiadau

38. Cymerwn ran mewn arddangosfeydd i fagu ymwybyddiaeth o ED a hybu'r gwasanaethau a gynigiwn. Wrth gynnal arddangosfeydd felly yng Nghymru, byddwn:
- yn defnyddio stondinau dwyieithog
 - yn trefnu i gopïau o gyhoeddiadau a gwybodaeth arall Swyddfa Eiddo Deallusol y DG fod ar gael ar y stodin yn Gymraeg a Saesneg
 - yn sicrhau bod aelod Cymraeg o'r staff ar gael mewn digwyddiadau o'r fath, i ddelio â chwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg.

Ymwneud Arall â'r Cyhoedd

39. Gellir defnyddio dulliau cyfathrebu eraill i gysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru. Wrth ddatblygu'n cysylltiadau technolegol â chwsmeriaid, e.e. trwy ffeilio gwybodaeth yn electronig, byddwn hefyd yn ystyried pa ddarpariaeth y gellir ei gwneud ar gyfer cwsmeriaid sydd am gynnal busnes â ni yn Gymraeg. Byddwn yn parhau i ehangu maes Cymraeg ein gwefan i gynnwys rhagor o wybodaeth wrth ddatblygu.
40. Byddwn yn paratoi rhaglen, i'w chymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith, yn gosod sut y byddwn yn cynyddu cynnwys Cymraeg ein gwefan gydag amser.
41. Wrth ddylunio gwefannau newydd, neu ailddatblygu'n gwefannau presennol, byddwn yn cymryd i ystyriaeth *Ganllawiau a Safonau ynghylch Meddalwedd Dwyieithog* Bwrdd yr Iaith, ynghyd ag unrhyw gyfarwyddyd arall a roir gan y Bwrdd gyda golwg ar ddatblygu gwefannau.
42. Byddwn yn cydymffurfio ag amodau'r Cynllun wrth ddatblygu systemau a dulliau cyfathrebu newydd gyda'n cwsmeriaid.

Cyhoeddiadau a'r Wefan

43. Cyhoeddwn amrywiaeth o gyhoeddiadau i helpu cwsmeriaid i ddeall y gyfraith ED, yn ogystal â llawlyfrau gwaith a Chylchgronau Swyddogol. Mae gwybodaeth ar gael ynghylch ED yn gyffredinol, ynghyd â manylion y gwasanaethau a gynigir gan y Swyddfa. Byddwn yn creu tudalennau Cymraeg ar ein gwefan, a fydd yn cynnwys fersiynau Cymraeg o'r cyhoeddiadau a geisir fynychaf, ffurflenni i'w lawrlwytho a gwybodaeth o ddiddordeb cyffredinol. Bydd dogfennau technegol manwl, cronfeydd data sydd wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd mwy cyfyngedig a deunydd wedi'i greu gan gyrff eraill, ar gael yn Saesneg yn unig. Caiff cynnwys Cymraeg y wefan ei adolygu'n gyson yn yr un ffordd â'r wefan Saesneg er mwyn gwella amrediad ac ansawdd yr wybodaeth a roir.

44. Mae'n holl gyhoeddiadau'n agored i gael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cyfleu'r sefyllfa ddiweddaraf ac yn adlewyrchu unrhyw newid deddfwriaethol. Yn ystod yr adolygiadau hyn, rhoir y flaenoriaeth i drefnu bod cyhoeddiadau ar gael yn Gymraeg yn unol â'r arfer. Caiff y rhain eu cyflwyno fel dogfennau Cymraeg a Saesneg ar wahân, a phob un yn dangos neges ddwyieithog bod y llall ar gael. Byddwn yn anfon fersiynau Cymraeg neu Saesneg at gwsmeriaid ar sail eu dewis iaith.
45. Lle codir tâl amdanynt, ni fydd pris y fersiynau Cymraeg neu ddwyieithog o ddogfennau yn uwch na phris y fersiwn Saesneg.
46. Byddwn yn trafod â Bwrdd yr Iaith ba gyhoeddiadau sydd ar gael yn Gymraeg ar hyn o bryd ac yn dod i gytundeb sut y gallwn gynyddu argaeledd cyhoeddiadau Cymraeg gydag amser yn unol â'r galw.

WYNEB CYHOEDDUS Y SEFYDLIAD

Hunaniaeth Gorfforaethol

47. Byddwn yn mabwysiadu dull a hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog drwy ddarparu:
 - penawdau llythyr, cardiau busnes, penawdau ffacs a slipiau cyfarch Cymraeg wrth ddelio â'n cwsmeriaid Cymraeg
 - canllawiau i staff ar ddefnyddio penawdau llythyr Cymraeg wrth ohebu yn Gymraeg.

Arwyddion a Gwybodaeth ar y Safle

48. Yn ein swyddfa yng Nghasnewydd, byddwn yn sicrhau:
 - bod fersiynau dwyieithog o bob arwydd a hysbysiad yn cael eu darparu yn y rhannau hynny o'r Swyddfa a'i thiroedd a ddefnyddir gan y cyhoedd, lle mae gennym gyfrifoldeb amdanynt
 - bod yr holl arwyddion dwyieithog hynny yn gyfartal o ran maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd
 - lle darperir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, eu bod yn gyfartal o ran diwyg, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd
 - y caiff pob arwydd ei wirio am gywirdeb cyn ei ddefnyddio.

Cyflwyno Dogfennau Statudol a Ffurflenni Penodedig

49. Derbyniwn geisiadau Cymraeg am batentau, nodau masnach a dyluniadau, a byddwn yn trefnu i'r ffurflenni a'r canllawiau perthnasol fod ar gael yn Gymraeg ar ein gwefan.
50. Bydd y Cofrestrydd Nodau Masnach a Dyluniadau yn comisiynu cyfieithiad i'r Saesneg o ffeiliadau Cymraeg i'w roi ar y cofnod cyhoeddus ochr yn ochr â'r gwreiddiol. Caiff y cyfieithiad hwn ei gytuno gyda'r ymgeisydd cyn ei gyhoeddi, a bydd yr un peth yn wir am unrhyw ddiwygiadau dilynol a wneir. Bydd y Cofrestrydd yn ystyried bod y cyfieithiad cytûn yn gyfwerth â'r Gymraeg a gafodd ei ffeilio.
51. Caiff ceisiadau Cymraeg am batentau eu prosesu yn yr un ffordd cyn gynted ag y daw'r newidiadau angenrheidiol i'r Rheolau Patentau i rym. Mae'r newidiadau hyn ar y gweill ac maen nhw'n debyg o gael eu gweithredu tua diwedd 2007. Tan hynny, bydd yn rhaid i unrhyw ymgeisydd sy'n ffeilio cais am batent yn Gymraeg ddarparu wedyn gyfieithiad i'r Saesneg, a rhaid hefyd i bob gohebiaeth ddilynol fod yn Saesneg.
52. Yn ein rhinwedd fel Swyddfa Dderbyn o dan y systemau patentau Ewropeaidd a rhyngwladol a System Nodau Masnach a Dyluniadau'r Gymuned, mae'n rhaid i geisiadau fod mewn un o nifer gyfyngedig o ieithoedd swyddogol, a'r Saesneg yn eu plith ond nid y Gymraeg. Fodd bynnag, mae ceisiadau patent rhyngwladol yn Gymraeg yn debyg o gael eu caniatáu gan y newidiadau i'r Rheolau Patentau y soniwyd amdanynt ym mharagraff 51. Caniateir ceisiadau Ewropeaidd yn Gymraeg pan ddaw'r Cytundeb Patentau Ewropeaidd (EPC 2000) diwygiedig i rym erbyn 13 Rhagfyr 2007. Yn y ddau achos, bydd angen ffeilio cyfieithiad i un o'r ieithoedd swyddogol o fewn ysbaid benodedig fel bod modd trefnu pob prosesu pellach mewn iaith swyddogol yn unol â gofynion y cytundebau rhyngwladol perthnasol.

Hysbysebu a Chyhoeddusrwydd, Hysbysiadau Swyddogol, Hysbysiadau i'r Wasg

53. Byddwn yn cyhoeddi unrhyw hysbysebion, hysbysiadau recriwtio, deunydd cyhoeddusrwydd neu hysbysiadau swyddogol yn Gymraeg a Saesneg mewn cyhoeddiadau sydd ar hyn o bryd yn cylchredeg yng Nghymru; ond ni fyddant yn Gymraeg yng nghyhoeddiadau'r DG gyfan nac yn y wasg arbenigol. Caiff y ddau fersiwn eu dangos gyda'i gilydd a byddant yn gyfartal o ran diwyg, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd. Yn Gymraeg y bydd hysbysiadau i'r wasg Gymraeg a'r cyfryngau darlledu yng Nghymru lle bo'r terfynau amser yn caniatáu.

GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN

Staffio, Hyfforddiant Iaith a Recriwtio

54. Ein nod yw i bob Cyfarwyddiaeth o fewn y Swyddfa sydd yn cysylltu â'r cyhoedd gynnwys staff Cymraeg sydd â chymwysterau addas yn y maes/meysydd ED perthnasol yn unol â'r ymrwymïadau a amlinellir isod ym mharagraffau 55 i 61. Ond gall fod y bydd rhai meysydd yn llai cymwys nag eraill i drin ymholiadau Cymraeg nes bydd modd inni gynyddu nifer yr aelodau staff sy'n siarad Cymraeg.
55. Nid oes gennym ar hyn o bryd unrhyw swyddi penodol lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, ond os daw'n amlwg bod y gallu hwn yn angenrheidiol mewn safle penodol byddwn yn pennu lefel y cymhwyster sydd eisïau ac yn llenwi'r safle'n briodol.
56. Byddwn yn monitro'r swyddi hyn yn weithredol ac yn rhoi hyfforddiant digonol a pharhaol i staff trwy ddatblygu strategaeth medrau iaith i ateb y medrau sy'n ofynnol, gan gwrdd â'r anghenion trwy hyfforddiant a recriwtio priodol.
57. I'r Cynllun weithio'r effeithiol, fodd bynnag, cydnabyddwn fod rhaid inni fod â digon o staff sy'n gallu siarad Cymraeg yn hyderus a delio ag amrywiaeth yr ymholiadau a gawn. I helpu i wireddu hyn, byddwn:
- yn parhau i annog hyfforddiant iaith i staff
 - yn meithrin gallu'n staff Cymraeg i weithredu trwy gyfrwng yr iaith trwy ddarparu hyfforddiant galwedigaethol yn Gymraeg lle bynnag y bo hynny'n ymarferol
 - yn ymateb i unrhyw brinder trwy recriwtio
 - yn cynnal archwiliad ieithyddol
 - yn cadw cofnod manwl-gywir o'r aelodau staff hynny sydd â gwybodaeth am y Gymraeg neu gymwysterau ynddi
 - yn gwahodd aelodau staff Cymraeg i wirfoddoli i gynorthwyo gyda'r dasg o ddelio â chwsmerïaid Cymraeg
 - yn cyhoeddi enwau aelodau staff Cymraeg yn ein Llyfr Ffôn mewnol ac ar ein gwefan fewnol.
58. Lle gwelir bod llithrigrwydd yn Gymraeg i'w ddymuno neu'n hanfodol, fe nodir hyn yn y cymwysterau ar gyfer swyddi ac mewn hysbysebion.
59. Lle na ellir dod o hyd i ymgeiswyr Cymraeg addas ar gyfer swydd lle mae'r Gymraeg i'w ddymuno, caiff y sawl a benodir ei annog i ddysgu Cymraeg.
60. Gall ymgeisydd nad yw'n medru'r Gymraeg gael ei benodi i swydd lle gwelir y Gymraeg yn *hanfodol*, ond mewn amgylchiadau lle gellir trefnu amser i

ddysgu'r iaith. Mewn enghreifftiau o'r fath, bydd dysgu'r iaith i'r lefel gymhwyster sy'n ofynnol, o fewn ysbaid resymol gytûn, yn un o amodau'r cyflogi.

61. Lle na ellir dod o hyd i ymgeiswyr Cymraeg addas ar gyfer swydd lle mae'r Gymraeg yn *hanfodol*, (neu lle penodwyd ymgeisydd nad yw'n medru'r iaith a'i fod yn dysgu), byddwn yn gwneud trefniadau dros dro fel y gellir rhoi'r gwasanaeth Cymraeg (trwy ddefnyddio, er enghraifft, staff Cymraeg o rywle arall yn y corff i gyflwyno agweddau arbennig).

Gweithio mewn Partneriaeth

62. Pan fyddwn yn arweinydd strategol ac ariannol mewn partneriaeth, byddwn yn sicrhau bod unrhyw agweddau o ran gwasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r cynllun hwn.

Wrth ymuno â phartneriaeth lle mae corff arall yn arwain, bydd ein mewnbwn i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r cynllun hwn a byddwn yn annog y partneriaid eraill i gydymffurfio.

Pan fyddwn yn bartner mewn consortiwm, byddwn yn annog y consortiwm i gydymffurfio â'r cynllun hwn. Wrth gymryd camau yn enw'r consortiwm, byddwn yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn.

Trefniadau Gweinyddol

63. Er mwyn sicrhau effeithiolrwydd a gweithrediad priodol y Cynllun, byddwn yn gwneud yn siŵr:
- fod ymrwymadau a threfniadau'r Cynllun wedi'u cymeradwyo gan y Prif Weithredydd a phawb arall sy'n gyfrifol am weithredu'r Cynllun
 - bod y cyfrifoldeb am gydgysylltu a hwyluso'r Cynllun yn cael ei ysgwyddo gan Swyddog y Cynllun Cymraeg, gan wneud rheolwyr unigol yn gyfrifol am weithredu'r rhannau hynny o'r Cynllun sy'n gymwys iddynt hwy yn uniongyrchol o ddydd i ddydd
 - bod y Cynllun ac unrhyw gyfarwyddiadau mewnol sydd angen i sicrhau gwasanaeth o ansawdd uchel i gwsmeriaid Cymraeg ar gael i bob aelod staff
 - wrth fanteisio ar wasanaethau cyfieithu ysgrifenedig neu gyfieithu-ar-y-pryd allanol, er enghraifft i gyfieithu dogfennau swyddogol a darparu cyfieithu-ar-y-pryd ar gyfer y Gymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus, ein bod yn defnyddio dim ond cyfieithwyr papur neu gyfieithwyr-ar-y-pryd sydd â chymwysterau priodol

Gwasanaethau a Roir ar Ran Swyddfa Eiddo Deallusol y DG i'r Cyhoedd yng Nghymru

64. Byddwn yn sicrhau bod unrhyw drefniadau yn y dyfodol neu drefniadau a wneir gyda chyrff eraill gyda golwg ar wasanaethu'r cyhoedd yng Nghymru, yn gyson ag amodau'r Cynllun hwn. Mae'r ymrwymiad hwn yn cynnwys gwasanaethau a gaiff eu hymddiried i eraill o dan gontract.
65. I wireddu hyn, byddwn yn sicrhau bod y contractwr yn ymwybodol o'r Cynllun ac o'r angen am weithredu unrhyw elfennau cymwys o fewn y Cynllun wrth roi gwasanaethau ar ein rhan i'r cyhoedd yng Nghymru. Caiff y rheidrwydd i gydymffurfio â'r Cynllun ei gynnwys mewn dogfennau tendro a chontractau, a chaiff yr ymlyniad wrth y Cynllun ei fonitro trwy oes y contract.

Monitro Gweithrediad ac Effeithiolrwydd y Cynllun

66. Byddwn yn paratoi ac yn diweddarau'n gyson **gynllun gweithredu** manwl, a drafodwn gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg, yn gosod sut y byddwn yn sicrhau'n bod yn gweithio'n unol â'r cynllun hwn. Daw'r cynllun gweithredu i rym ar y dyddiad y daw'r cynllun hwn i rym. Bydd y cynllun gweithredu'n cynnwys targedau, terfynau amser ac adroddiad ar y cynnydd a wnaed yn ôl pob targed.

Bydd Swyddog y Cynllun Iaith yn gyfrifol am fonitro gweithrediad ac effeithiolrwydd y Cynllun. Byddwn yn sicrhau:

- bod y ffordd y caiff polisïau a dulliau gweithredu newydd eu llunio a'u cyflwyno yn cwrdd â gofynion y Cynllun hwn
- monitro'n trefniadau ar gyfer rhoi gwasanaethau yn Gymraeg, ynghyd ag effeithiolrwydd y trefniadau hynny a sut gyflawniad a wireddwyd gennym
- monitro'r ffordd y byddwn yn annog neu'n hwyluso defnydd y Gymraeg gan eraill
- monitro'n trefniadau ar gyfer delio â'r cyhoedd Cymraeg, gan gynnwys canran yr ohebiaeth a atebwyd o fewn y terfyn amser a osodwyd yn darged, canran y cylchlythyrau/llythyrau safonol a ddsbarthwyd yn ddwyieithog, nifer y ceisiadau Cymraeg a gafodd eu derbyn a'u prosesu o fewn yr amserlenni penodedig, a chanran y galwadau teleffon a gynhaliwyd yn Gymraeg
- cofnodi a monitro cwynion am y gwasanaeth Cymraeg
- bod modd i gwsmeriaid Cymraeg wneud awgrymiadau'n ddiraffferth ar gyfer gwella'r gwasanaeth a roir

- monitro argaeledd staff Cymraeg i ddelio ag ymwelwyr ac ymholiadau
- monitro trefniadau cyfarfodydd yn ôl ymrwymïadau'n Cynllun
- bod gweithrediad y mesurau staffio a hyfforddi sydd wedi'u nodi yn y Cynllun yn cael eu monitro ar sail strwythuredig a pharhaol
- bod ein delwedd gorfforaethol yn bodloni ymrwymïadau'r Cynllun hwn
- bod ein cyhoeddiadau, ffurflenni, arwyddion, hysbysiadau a deunydd cyhoeddedig arall yn bodloni ymrwymïadau'r Cynllun hwn
- bod asiantiaid a chontractwyr sy'n gorfod cysylltu â'r cyhoedd wrth roi gwasanaethau ar ran Swyddfa Eiddo Deallusol y DG yn ymwybodol o ofynion y Cynllun
- Byddwn yn cyflwyno adroddiadau blynyddol i Fwrdd yr Iaith ar ein cynnydd wrth wireddu'r cynllun hwn.

Targedau

67. Er mwyn monitro ac asesu faint o fanteisio sydd ar ein gwasanaethau Cymraeg, byddwn yn casglu gwybodaeth bob chwarter am:
- nifer yr ymholiadau cyffredinol ysgrifenedig (gan gynnwys rhai ffacs a Rhyngrwyd) a gawsom yn Gymraeg, ac o ran p'un a fodlonwyd yr amser targed a gyhoeddwyd gennym ar gyfer ymateb
 - nifer y galwadau ffôn a gafwyd yn Gymraeg
 - nifer a natur unrhyw gwynion yn ymwneud â'n gwasanaethau Cymraeg.
68. Caiff canlyniadau'r ymarferiad hwn eu monitro a'u cyfleu i uwch-reolwyr Swyddfa Eiddo Deallusol y DG ac i Fwrdd yr Iaith, gan eu cyhoeddi yn ein Hadroddiad Blynyddol ac ar ein gwefan. Caiff nifer y ceisiadau am ddefnyddiau Cymraeg, ynghyd â'r arfer sydd arnynt, eu monitro'n fanwl i sicrhau ein bod yn rhoi'r lefel orau bosib o wasanaeth i'n cwsmeriaid.
69. Byddwn yn adolygu'r cynllun hwn o fewn pedair blynedd iddo ddod i rym.

Y Drefn Gwyno

70. Rydym wedi ymrwymo i wella safon y gwasanaeth a roddwn i'n holl gwsmeriaid, ni waeth pa iaith a ddewisant i wneud busnes. Credwn y bydd

lefel ac ansawdd y gwasanaeth y darperir ar ei gyfer o dan y Cynllun hwn yn diwallu anghenion ein cwsmeriaid Cymraeg. Ond byddwn yn cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân o Siarter Swyddfa Eiddo Deallusol y DG a'r Llyfrynnau Atborth a Safonau Gwasanaeth Cwsmeriaid lle gellir gweld manylion ein trefn gwyno.

71. Os bydd cwsmeriaid am unrhyw reswm yn anfodlon ar y gwasanaeth a gawsant, gallant ysgrifennu at:

Ian Fletcher
Prif Weithredydd
Swyddfa Eiddo Deallusol y DG
Blwch Post 49
Cardiff Road
Casnewydd
NP10 8YU
E-bost: box49@ipo.gov.uk

72. Caiff y gŵyn ei chydabod yn brydlon a bydd cwsmeriaid yn cael ateb o fewn 10 diwrnod gwaith. Os bydd rhyw oedi'n debygol, yna fe anfonir ateb dros dro.
73. Os na fydd modd bodloni cwyn trwy ohebu â ni, gellir gofyn i Fwrdd yr Iaith roi cyngor annibynnol i'n cynorthwyo i ddatrys unrhyw faterion heb eu clirio.

CYHOEDDUSRWYDD I'R CYNLLUN

74. Byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd i'n Cynllun ar ein gwefan ar gyfer cwsmeriaid, yn ogystal â thrwy Hysbysiad i'r Wasg. I'n staff, byddwn yn lansio'r Cynllun trwy gylchgrawn staff y Swyddfa "The Link" a chaiff hysbysiad ei gynnwys hefyd ar dudalen "Your Organisation" ar ein gwefan fewnol.
75. Bydd copïau o'r Cynllun ar gael yn rhad ac am ddim. Dylid cyfeirio ceisiadau at:

Cynllun Iaith Gymraeg
Swyddfa Eiddo Deallusol y DG
Ystafell 3R12
Concept House
Cardiff Road
Casnewydd
NP10 8QQ

Tel: 01633 814419
+44 1633 814419 (Galwyr rhyngwladol)

Ffacs: 01633 814509
E-bost: cymraeg@ipo.gov.uk

Sylwadau am y Cynllun

76. Croesawn awgrymiadau ar gyfer gwella'n Cynllun a gellir anfon y rheiny at:

Cynllun Iaith Gymraeg
Swyddfa Eiddo Deallusol y DG
Ystafell 3.R12
Concept House
Cardiff Road
Casnewydd
NP10 8QQ

Tel 01633 814419
+441633 814419 (Galwyr rhyngwladol)
Ffacs 01633-814509
E-bost: cymraeg@ipo.gov.uk